# SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLEB YR UNIGOLYN

# RHEOLWR CYDYMFFURFIAD Y GRŴP AC IECHYD A DIOGELWCH

---

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Rheolwr Cydymffurfiad y Grŵp ac Iechyd a Diogelwch |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Asedau a'r Prif Weithredwr (am gyfrifoldebau Grŵp) |
| **Yn gyfrifol am:** | Swyddogion y Tîm Cydymffurfio |
| **Daliadaeth:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | £49,809 y flwyddyn |
| **Oriau:** | 35 awr yr wythnos |

## Pwy yw Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghalon Rhondda Cynon Taf yn ne Cymru odidog. Rydym yn falch o'n cymunedau a'n hanes wedi'i wreiddio'n ddwfn o ran darparu cartrefi a chefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt. Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion allweddol.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 2000 o gartrefi ar rent, gan gynnwys 4 cynllun cartrefi i bobl hŷn, dwy loches i fenywod a nifer o brosiectau tai â chymorth sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae ein his-gwmni hynod uchel ei barch, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ychwanegiad diweddar at y Grŵp yw Down to Zero, sef is-gwmni sy'n canolbwyntio ar liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd, gan olrhain ôl troed carbon y Grŵp a chynnig hyfforddiant, gwirfoddoli a buddion uniongyrchol yn ôl i'n Deiliaid Contract ac i'r gymuned ehangach.

Yn anad dim, sefydliad pobl ydym ni, sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau a chymorth gwych, bod yn gyflogwr da a bod yn bartner uchel ei barch yn ein rhanbarth ac ar draws Cymru.

## Prif Ddiben y Rôl

Mae'r Rheolwr Cydymffurfiad y Grŵp ac Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cydymffurfio o ansawdd uchel i gwsmeriaid trwy reoli tîm o gydweithwyr technegol yn rhagweithiol ac yn effeithiol o fewn eu maes gwasanaeth. Mae'r rôl yn gyfrifol am sicrhau bod tenantiaid yn byw mewn cartrefi diogel a saff, a bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi iechyd a diogelwch, ac arfer gorau.

Yn ychwanegol, mae'r rôl yn gyfrifol am arwain a chydlynu swyddogaeth Iechyd a Diogelwch y Grŵp yn cynnwys dyletswyddau cyfreithiol landlordiaid a chyflogwyr. Felly, bydd gweithgareddau

a wneir o fewn y rôl hon yn cael eu cyflawni yn uniongyrchol o dan y Prif Weithredwr, ac yn adrodd iddo.

Mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi tîm o unigolion sy'n llawn cymhelliant ac yn perfformio'n dda sy'n gallu bodloni a rhagori ar ddeilliannau gwasanaeth ar draws ystod o feysydd ar gyfer cwsmeriaid. Mae dadansoddi data perfformiad, gyda ffocws ar atebion, yn rhan allweddol o'r rôl hon. Mae rheoli perfformiad cryf a dealltwriaeth glir o'n diwylliant sefydliadol a safon ac ethos ein gwasanaeth cwsmeriaid yn hanfodol i lwyddiant y tîm ac i nodau ac amcanion y sefydliad.

Bydd Rheolwr Cydymffurfiad y Grŵp ac Iechyd a Diogelwch yn gweithio ochr yn ochr â Rheolwyr eraill y Grŵp ac uwch arweinwyr i greu amgylchedd lle caiff gwelliant parhaus trwy ddiwylliant cadarnhaol ei groesawu, a bod y gwasanaeth yn cyflawni deilliannau rhagorol ar gyfer tenantiaid a chydweithwyr.

**Mesurau Perfformiad Allweddol**

- Arweinyddiaeth strategol a gweithredol gref o'r tîm Cydymffurfio, gan gynnwys gyrru diwylliant gwelliant parhaus, a galluogi cydweithwyr i ymgymryd â'r ystod lawn o weithgareddau yn gysylltiedig â rheoli eiddo a chydymffurfio / Iechyd a Diogelwch
- Creu, adolygu ac adrodd ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol yn gysylltiedig â chydymffurfiad landlordiaid a gofynion iechyd a diogelwch sefydliadol ehangach, fel bod yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r Bwrdd Grŵp yn gallu asesu perfformiad, risg, ac adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfiad diogel o ran iechyd a diogelwch ar draws y Grŵp
- Rheoli cyllideb yn gryf ar draws yr holl feysydd gweithgarwch cydymffurfio ac iechyd a diogelwch, yn cynnwys goruchwylio cyfrifon rheoli, cynllunio gwaith a rhagweld
- Anfon gohebiaeth fewnol ac allanol reolaidd ac effeithiol at staff a thenantiaid ar wybodaeth allweddol yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, a chynnal cyfleoedd rheolaidd i gyfathrebu a thrafod risgiau allweddol wyneb yn wyneb, er enghraifft diogelwch o ran nwy a thân, diogelwch cyflogeion, a rheoli contractwyr
- Gwella perfformiad ein his-gontractwyr ar draws ystod lawn y gweithgareddau yn gysylltiedig â chydymffurfio ac adeiladu, o ran cydymffurfio a diogelwch yn y gwaith / deddfwriaeth CDM
- Cadeirio cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch y Grŵp
- Cynorthwyo'r Pennaeth Asedau i dendro'n effeithiol am iechyd a diogelwch landlordiaid, a gwasanaethau eraill yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
- Gweithio mewn partneriaeth â rheolwyr ar draws y grŵp i reoli risg yn effeithiol o ran eu meysydd gwasanaeth, ac yn gorfforaethol trwy gynnal y gofrestr risg strategol, gan nodi risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg ac ymgorffori camau lliniaru o fewn gweithgareddau tîm
- Bod yn gyfrifol am strategaethau, cynlluniau ac arfer corfforaethol Iechyd o fewn y sefydliad, a'u gwella, gan gynnwys dirprwyo gweithgareddau ar draws yr adrannau a gyrru

diwylliant o atebolrwydd a chyfrifoldeb ar draws y Grŵp o amgylch gweithgarwch iechyd a diogelwch

- Llunio gwybodaeth lawn am iechyd a diogelwch, gyda naratif cryf sy'n galluogi'r Pennaeth Asedau, y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau a'r Prif Weithredwr i ddeall perfformiad ar draws gweithgareddau iechyd a diogelwch, lle rydym ni'n gwneud yn dda, pa feysydd sydd angen i ni eu gwella a sut caiff risg ei rheoli
- Cefnogi a chysylltu â phrosesau adrodd gydag asiantaethau allanol ar faterion yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn achosion o dorri deddfwriaeth neu bolisi
- Arwain hyfforddiant a dysgu mewn testunau yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch i swyddogion a rheolwyr, yn cynnwys caffael ymgynghorwyr allanol fel bod gan y Grŵp y wybodaeth ddiweddaraf, ac yn deall gofynion polisi a gofynion deddfwriaethol newydd

**Galluoedd Allweddol**

- Sgiliau arwain rhagorol
- Arbenigedd a ffocws ar wasanaeth cwsmeriaid
- Rheolwr perfformiad hyderus
- Chwilfrydig bob amser
- Cydweithredwr a chyfathrebwr rhagorol
- Sgiliau dadansoddol a chryf o ran ysgrifennu adroddiadau
- Sgiliau cryf o ran rheoli cyllideb
- Craffter o ran rheoli amser, rheoli prosiectau a rheoli newid
- Meddylfryd sy'n canolbwyntio ar atebion
- Chwaraewr tîm
- Rhywun sy'n meddwl yn annibynnol
- Dealltwriaeth strategol

**Galluoedd technegol**

- Cymhwyster proffesiynol perthnasol mewn meysydd cydymffurfio landlordiaid, fel BTEC OND/HND; gradd BSc mewn pwnc yn gysylltiedig ag adeiladu neu gyfwerth trwy brofiad / hyfforddiant perthnasol.
- NEBOSH neu gymhwyster cyfwerth mewn Iechyd a Diogelwch
- Hanes cryf o ran cyflwyno rhaglenni cydymffurfio Iechyd a Diogelwch / landlordiaid gyda chyllideb rheoli cyfalaf a rheoli refeniw
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau a hawliau cyfreithiol landlordiaid a thenantiaid a dyletswyddau asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill o dan gyfraith iechyd a diogelwch a thenantiaeth
- Dealltwriaeth o sut beth ddylai gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol a chyfathrebu rhagorol â thenantiaid fod o ran gwasanaethau cynnal a chadw, gan gynnwys ymgynghoriadau ffurfiol yn ymwneud â gweithgarwch y gellir codi tâl amdano

- Sgiliau cryf o ran rheoli staff, gyda phrofiad o reoli staff, yn cynnwys gosod safonau a monitro perfformiad
- Hyderus wrth gynllunio a rheoli cyllidebau ac adnoddau
- Gallu cyflwyno gwybodaeth gymhleth a llunio adroddiadau ysgrifenedig mewn modd rhesymegol a chryno
- Hyderus wrth feithrin perthnasoedd effeithiol gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau
- Gallu datblygu, gweithredu, monitro a chynnal a chadw systemau, gan gynnwys TG, ar gyfer gwybodaeth reoli effeithiol
- Meddu ar drwydded yrru lawn ar gyfer car a gallu defnyddio car bob diwrnod gwaith

**Dymunol:**
Byddai'n ddymunol hefyd fod deiliad y swydd yn meddu ar y canlynol;

- Cymhwyster proffesiynol ym maes tai neu gyfwerth
- Meddu ar brofiad o arwain tîm amlddisgyblaethol, meddu ar sgiliau cryf o ran rheoli prosiectau
- Meddu ar brofiad o gynllunio a rheoli cyllidebau ac adnoddau
- Gallu i arwain timau mawr trwy newid tra'n gyrru perfformiad rhagorol
- Meddu ar ddealltwriaeth o brosesau busnes a rôl y Byrddau yn y broses gwneud penderfyniadau
- Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

**Atodiad 1**

EIN GWELEDIGAETH Rydym am fod yn rhan o gymunedau hapus, iach a llewyrchus yn y cymoedd, lle mae gan bawb gyfle i fyw'n dda. EIN PWRPAS Rydym ni yma i ddarparu cartrefi a chefnogaeth wych i'r bobl sy'n rhan o'n cymunedau. EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH - Mae amrywiaeth yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn rhoi pwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu hyrwyddo ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Ein gwerthoedd

**ANGERDD** – Rydyn ni'n poeni'n angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud

**PARCH** – Rydym yn trin pawb â pharch

**CYFRIFOLDEB** – Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd

**UNIONDEB** – Rydym yn cyflawni ein rolau yn onest ac yn ddidwyll

**RHAGORIAETH** – Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau glas

Amcanion allweddol:
- Cefnogi cymunedau gwydn
- Darparu gwasanaethau rhagorol
- Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
- Diogelu ein cynaliadwyedd ariannol
- Buddsoddi yn ein llywodraethu, ein pobl a'n systemau
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni nodau a rennir

Ar draws pob blaenoriaeth, mae:
  - Tegwch a chydraddoldeb
  - Gwerth am arian
  - Lleihau ein heffaith amgylcheddol